

## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

### Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun Nos Fawrth 4ydd Hydref 2016

**Yn bresennol :-** Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, Euryrn Roberts, Sion Jones, Jane Pierce, Richard Ll. Jones, Idris Thomas

**Gweddi:** Offrymwyd gair o weddi gan Idris Thomas

**1. Ymddiheuriadau.** Aled Green, R. Hefin Williams

**2. Datgan buddiant.** Pawb yn datgan buddiant ar geisiadau am nawdd ariannol i fudiadau.

**3. Cofnodion cyfarfod 5ed Fedi 2016**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**4. Materion o'r cofnodion**

**Gwteri Tai Brynhyfryd** – Derbyniwyd llythyr a daeth cadarnhad o'r llawr bod y gwteri wedi cael eu llau.

**Troiad i Greenwood** - Derbyniwyd ymateb o Wynedd yn datgan eu bod yn gwneud asemiad o'r lôn a'r cyffordd.

**Gwaith gan Dwr Cymru ym Mhenisarwaun** – Derbyniwyd ymateb yn dilyn cais am esboniad o'r gwaith uwchraddio sydd yn cael ei wneud yno. Cyfeiriodd Phyllis fod yna drafferth wedi bod yno oherwydd gor dyfiant a gwreiddiau i goeden dderw. Roedd yna brotest mawr wedi bod yno gan fod y goeden mewn peryg o gael ei dymchwel, ond mae'r broblem bellach wedi ei datrys, ac mae yn debyg mai rhan o'r goeden fydd yn cael ei thorri.

**Lloches Bws Rhiwlas** – Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn ymateb i'r cais gan y gymuned i loches bws. Esboniwyd nad yw'r cyngor Sir yn derbyn grant bellach i'r math yma o waith. Does posib chwaith i'r cyngor gymuned ariannu gyda côst yn anelu at £7,000. Serch hynny, llenwyd ffurflen iddynt gadw y cais ar ffeil, rhag ofn y bydd grant o'r fath yn y dyfodol.

**Seddi Gwag** – Mae 3 sedd wâg gennym. Un yr un yn Bethel, Deiniolen a Beynrefail. Mae hysbyseb am y sedd wâg yn Bethel yn yr Eco mis yma. Y clerch i hysbysebu y ddwy sedd arall mis nesaf.

**5. Gohebiaeth a materion eraill**

**Llythyr Myfyrwyr** – Derbyniwyd llythyr gan myfyrwyr o'r adran arcitect sydd a diddordeb cyd weithio ar y cyd ar brosiect bach megis cysgodfan bws. Mae cyngorwyr cymunedol Rhiwlas wedi gyrru i gael mwy o fanylion ar y cynllun.

**BT** - Derbyniwyd restr o ffonau kiosk mae Bt yn bwriadu gwneud l fwrdd a hwy o'r ardal. Doedd yn wir dim galwadau yn cael eu gwneud o bron iawn ddim un.

**Ysgol Gwaun Gynfi** – Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gynrychiolydd o'r cyngor cymuned i'r corff llywodreuthol yr ysgol. Gan mai Geraint Hughes oedd yn arfer cynrychioli y cyngor, penderfynwyd disgwyl nes byddwn wedi llenwi y sedd wâg.

**Parcio anabl Post Bethel** – Derbyniwyd e bost yn cadarnhau bydd cynrychiolydd o'r cyngor sir am fynd i weld neu cysylltu a'r swyddfa bost ym Methel

**Fainc Cyngor Cymuned** – Yn dilyn llythyr a llun o'r fainc yn cae chwarae Clwt y Bont, penderfynwyd ein bod am gael ei thrwsio cyn gynted a phosib. Dywedodd Euryrn Roberts y buasai yn cysylltu a trefnu iddi gael ei atgyweirio.

**6. Cynllunio**

Ni dderbyniwyd yr un cais cynllunio ond derbyniwyd :

**Tros y Waun** – Rhybydd o flaen llaw I godi adeilad amaethyddol

### **7. Cyllideb, derbyniadau a gwariant.**

Cyflwynwyd taflen yn dangos taliadau a derbyniadau y flwyddyn hyd yma. Ar y daflen gwelwyd balansau y banc. Roedd y clerc wedi amcangyfrif beth oedd yn bosib angen eu talu neu beth oedd yn mynd allan yn sefydlog, ac roedd hyn yn rhoi cyflwyniad llawn o faint o arian oedd ar gael I roi ar geisiadau blynyddol am nawdd ariannol gan fudiadau.

Derbyniwyd yn unfrydol fod y ffurflen a'r balansau yn gywir.

### **Ceisiadau gan Fudiadau am Nawdd Ariannol.**

Derbyniwyd 21 cais eleni.

1. Ni fu Ynni Padarn yn llwyddiannus eleni

2. Ni all y cyngor gyfranu at unrhyw enwad crefyddol, gorff na mudiad cenedlaethol, felly yn methu cyfranu i Eglwys Llanddeiniolen.

Penderfynwyd ar gyfraniadau fel a ganlyn:

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen.....	300
Pwyllgor Neuadd Penisarwaun.....	300
Clwb Bro Bethel.....	150
Eisteddfod Bentref Bethel.....	300
Clwb Snwcer Bethel.....	100
Eco'r Wyddfafa.....	300
Cynllun Efe.....	100
Cymdeithas Lenyddol Undebol Bethel.....	100
Clwb Bowlio Bethel.....	100
Eisteddfod Penisarwaun.....	300
Neuadd Bentref Rhiwlas.....	300
Pwyllgor Clwb Pensiynwyr Penisarwaun.....	150
Ysgol Feithrin Deiniolen.....	150
Clwb Snwcer Deiniolen.....	100
Cylch Ti a Fi Penisarwaun.....	150
Clwb Ti a Fi Bethel.....	150
Seindorf Arian Deiniolen.....	400
Clwb Henoed Rhiwen.....	150
Llais Ogwan.....	100
Cyfanswm	3700

### **11. O gwmpas y Bwrdd**

**Penisarwaun** – Angen bin halen ger cae chwarae Penisarwaun

**Dinas Dinorwig** – Rhoddodd Euryyn Roberts ddatganiad o'r diweddara ar y problem, a dywedodd nad oes gan Cadw ddim diddordeb yn yr ardal. Ond mae yn bendant fod yr hawl gan trethdalwyr yr ardal i fynd yno.

Mae'r cyngor yn fodlon cael siaradwr gwadd o Cadw atom i drafod os oes gobaith o gael cyd weithio ynglyn a'r mater, neu swyddog o Cyngor Gwynedd.